BWRDD PARTNERIAETH RHANBARTHOL
GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES
REGIONAL PARTNERSHIP BOARD

Ystadegau am ddangosyddion allweddol iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc yng Ngogledd Cymru

Ebrill 2025

This document is available in English. Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Cysylltwch â ni

Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru

Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, LL15 1YN

Ebost: hcargc@denbighshire.gov.uk

Ffôn: 01824 712432

Gwefan: www.cydweithredfagogleddcymru.cymru/ystadegau/

Cynnwys

Nodiadau ar y data 4

Nifer y plant a phobl ifanc yn y boblogaeth 6

Mynychder anhwylderau iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc 8

Dylanwadau allweddol ar iechyd meddwl 10

- Pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal 10
- Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol 11
- Pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig 13
- Gofalwyr ifanc 15
- Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant 16
- Pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys cefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr a Roma) 16
- Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd 18
- Ymfudwyr a ffoaduriaid 19
- Pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol 22

Atodiadau 24

Nodiadau ar y data

Cynhyrchwyd y darn hwn o waith gan Hwb Cydlynu Arloesi Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2025. Mae'n diweddaru'r bwletin a gyhoeddwyd gennym ym mis Awst 2023. Fe'i datblygwyd o ddarn o waith a wnaed ym mis Mawrth 2023 i helpu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion Ifanc Gogledd Cymru i ddeall angen o fewn ein poblogaeth, ac i'w helpu i gynllunio a monitro eu gwasanaethau. Bydd yn ffurfio rhan o'r rhaglen o ddiweddariadau i'r Dadansoddiad o Anghenion y Boblogaeth a bydd copi ar gael ar wefan Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru. Ein nod yw adolygu'r bwletin hwn bob blwyddyn ac ychwanegu data newydd pan fydd ar gael.

Oherwydd ein bod yn edrych ar ardaloedd chwe awdurdod unedol ac eisiau gwneud cymariaethau mor deg â phosibl, rydym yn defnyddio data sydd ar gael ar sail safonol ar gyfer pob maes. Mae hyn yn golygu ein bod wedi defnyddio ffynonellau data a gyhoeddwyd yn swyddogol yn bennaf. Efallai na fydd y rhain yn rhoi darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd mewn ardal, a gallant ddangos patrymau gwahanol i ddata gweinyddol a gedwir yn lleol. Efallai y bydd data gweinyddol ar gael yn uniongyrchol gan gynghorau lleol neu ddarparwyr gwasanaethau os ydych am edrych ar ddarlun llawnach ar gyfer eich ardal.

Lle bo modd, rydym wedi edrych ar y data diweddaraf a'u cymharu â'r hyn a oedd yn digwydd 10 mlynedd yn ôl, i helpu wrth fesur newidiadau dros amser. Nid yw'r cyfnodau amser a gaiff eu mesur gan wahanol ffynonellau data yn cyd-fynd. Mae gwahanol ffynonellau'n defnyddio gwahanol amrediad oedran i ddiffinio 'plentyn' neu 'berson ifanc' hefyd – lle bo'n bosibl, mae unrhyw nodweddion (er enghraifft, sylfaen boblogaeth wrth gyfrifo canran) wedi'u paru â'r ffynhonnell ddata.

Mae amcangyfrifon o niferoedd poblogaeth wedi'u hadolygu yn dilyn rhyddhau canlyniadau o Gyfrifiad 2021, felly mae'r hyn yr ydym yn ei ddeall am dueddiadau'r boblogaeth wedi newid ers i Asesiad o Anghenion y Boblogaeth 2022 gael ei gyhoeddi. Mae hyn yn golygu y bydd rhai rhifau, cyfraddau a chanrannau yn edrych yn wahanol iawn i'r hyn a welwyd o'r blaen, ac ni ystyrir bod rhai ffynonellau data yr ydym wedi'u defnyddio o'r blaen yn ddibynadwy bellach (yn benodol, amcanestyniadau a rhagolygon sy'n seiliedig ar dueddiadau'r gorffennol).

Amharodd y pandemig Covid-19 ar ddilyniant data a'r gallu i gymharu rhai setiau data â'i gilydd – boed hynny oherwydd newid y drefn o gasglu data neu roi'r gorau

iddi’n gyfan gwbl, neu oherwydd bod pobl yn ymddwyn yn wahanol ac felly heb gael eu cyfrif yn yr un ffordd neu yn yr un lleoedd. Rydym wedi nodi’r rhannau hynny o’r adroddiad hwn lle mae’r pandemig yn debygol o fod wedi effeithio ar y data.

Nifer y plant a phobl ifanc yn y boblogaeth

Data sylfaenol am y boblogaeth yw'r sail ar gyfer ein dealltwriaeth o unrhyw newid yn y niferoedd, cyfraddau a chanrannau y byddwn yn bwrw golwg arnynt yng nghyd-destun y problemau gofal cymdeithasol a lles y mae gennym ddiddordeb neilltuol ynddynt. Mae'r adran hon yn edrych ar boblogaethau 0 i 17 oed a 18 i 24 oed.

Mae gwahanol ffynonellau yn y bwletin hwn yn defnyddio gwahanol amrediad oedran i ddiffinio 'plentyn' neu 'berson ifanc' a lle bo'n bosibl, mae unrhyw nodweddion (er enghraifft, sylfaen boblogaeth wrth gyfrifo canran) wedi'u paru â'r ffynhonnell ddata.

Ffigur 1a: nifer y bobl oedran 0 i 17 yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru

Ardal	2023 nifer	2023 canran	2013 nifer	2013 canran	Newid 2013-23
Ynys Môn	13,050	18.9%	13,650	19.6%	-600
Gwynedd	21,700	18.2%	23,350	19.4%	-1,650
Conwy	20,450	17.9%	21,700	18.8%	-1,250
Sir Ddinbych	19,300	19.8%	19,400	20.5%	-100
Sir y Fflint	30,800	19.8%	32,050	21.0%	-1,250
Wrecsam	27,750	20.4%	29,150	21.4%	-1,350
Gogledd Cymru	133,100	19.2%	139,300	20.2%	-6,200

Ffigur 1b: nifer y bobl oedran 18 i 24 yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru

Ardal	2023 nifer	2023 canran	2013 nifer	2013 canran	Newid 2013-23
Ynys Môn	4,150	6.0%	5,150	7.4%	-1,050
Gwynedd	11,900	10.0%	13,600	11.3%	-1,700
Conwy	6,500	5.7%	8,250	7.2%	-1,750
Sir Ddinbych	6,100	6.3%	7,450	7.9%	-1,350
Sir y Fflint	10,000	6.4%	12,150	8.0%	-2,150
Wrecsam	9,550	7.0%	11,150	8.2%	-1,550
Gogledd Cymru	48,250	7.0%	57,750	8.4%	-9,550

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.
Mae'r ganran o gyfanswm poblogaeth yr ardal.

Ffynhonnell: amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf (2023) yn nodi bod cyfanswm nifer y bobl 0 i 17 oed yng Ngogledd Cymru yn oddeutu 133,100. Roedd nifer y bobl rhwng 18 a 24 oed tua 48,250.

Yn gyffredinol, mae nifer y plant a phobl ifanc yn y boblogaeth wedi bod yn gostwng ar draws Gogledd Cymru yn y degawd diwethaf. Ym mhob ardal mae plant a phobl ifanc hefyd yn ffurfio cyfran lai o'r boblogaeth yn 2023 nag yn 2013. Mae nifer y plant a phobl ifanc 0 i 17 oed yng Ngogledd Cymru wedi gostwng tua -6,200 yn y cyfnod hwnnw. Mae nifer 18 i 24 oed wedi gostwng.

Mae'r gyfran o blant a phobl ifanc ym mhoblogaeth Gogledd Cymru'n weddol fach at ei gilydd o gymharu â chyfartaleddau Prydain Fawr o 20.5% (0 i 17 oed) a 7.0% (18-24 oed). Mae cyfran y rhai 18 i 24 oed yn uchel yng Ngwynedd oherwydd y boblogaeth myfyrwyr sy'n gysylltiedig â Phrifysgol Bangor.

Bu gostyngiad yn nifer y genedigaethau a'r cyfraddau geni ymhob ardal awdurdod lleol rhwng 2013 a 2023 ac mae'r tueddiad wedi bod ar i lawr ers y 1970au. Mae'r cyfraddau geni'n is na'r lefel naturiol ar gyfer adnewyddu'r boblogaeth ledled Gogledd Cymru.

Mae allfudiad net oedolion ifanc mewn rhai ardaloedd wedi cael effaith ar nifer y plant hefyd, gan ei fod yn lleihau nifer y menyw o oed cael plant yn y boblogaeth.

Mae'r rhain yn dueddiadau sy'n debygol o barhau yn y dyfodol.

Mynychder anhwylderau iechyd meddwl mewn plant a phobl ifanc

Canfu astudiaeth Mental Health of Children and Young People in England wave 4 (ar gael yn Saesneg yn unig)a gynhaliwyd gan GIG Lloegr, yn 2023, fod gan tua un o bob pump o blant a phobl ifanc rhwng 8 a 25 oed anhwylder meddwl tebygol.

Roedd hyn yn 20.3% o bobl ifanc 8 i 16 oed, 23.3% o bobl ifanc 17 i 19 oed a 21.7% o bobl ifanc 20 i 25 oed. Arhosodd cyfraddau anhwylder meddwl tebygol yn sefydlog ym mhob grŵp oedran rhwng 2022 a 2023. Dilynodd hyn gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion cyffredinol o un o bob naw o bobl ifanc rhwng 8 a 25 oed yn 2017 i un o bob pump yn 2020.

Mae cymhwyso'r cyfraddau diweddaraf i'r amcangyfrifon poblogaeth diweddaraf ar gyfer Gogledd Cymru yn rhoi amcangyfrif o 28,600 o blant a phobl ifanc yn y rhanbarth sydd ag anhwylder iechyd meddwl tebygol.

Ffigur 2: amcangyfrifon o fynychder anhwylderau iechyd meddwl tebygol mewn plant a phobl ifanc yn awdurdodau lleol Gogledd Cymru, 2023

Ardal	8 i 16 oed	17 i 18 oed	19 i 25 oed	Cyfanswm 8 i 25 oed
Ynys Môn	1,450	350	900	2,700
Gwynedd	2,350	600	2,600	5,550
Conwy	2,250	550	1,400	4,200
Sir Ddinbych	2,100	550	1,300	3,950
Sir y Fflint	3,400	800	2,150	6,350
Wrecsam	3,050	750	2,100	5,850
Gogledd Cymru	14,650	3,600	10,400	28,600

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynonellau: Mental Health of Children and Young People in England wave 4 study 2023, NHS Digital; amcangyfrifon poblogaeth ganol blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Amcangyfrif yw hwn o'r holl bobl sydd ag anhwylder tebygol, a bydd yn cynnwys llawer o blant a phobl ifanc â chyflyrau heb eu diagnosio neu gudd. Mae hyn yn golygu na fydd ffigurau'n cyfateb i niferoedd ar unrhyw gofrestrau nac mewn cofnodion gweinyddol. Dylid defnyddio'r amcangyfrifon fel ffynhonnell wybodaeth ychwanegol am y pwnc yn hytrach nag fel cymharydd neu mewn mesurau perfformiad.

Canfu'r astudiaeth hefyd fod cyfraddau anhwylder meddwl tebygol ymhlith pobl 8 i 16 oed yn debyg i fechgyn a merched, tra bod cyfraddau 17 i 25 oed ddwywaith yn uwch i fenywod ifanc na dynion ifanc.

Dylanwadau allweddol ar iechyd meddwl

Mae rhai ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a gaiff eu hystyried fel dylanwadau allweddol – neu benderfynyddion – iechyd meddwl. Gall edrych ar ddata am rai o'r ffactorau hyn roi dealltwriaeth well i ni o'r hyn a allai effeithio ar iechyd meddwl pobl ifanc yng Ngogledd Cymru, sut fydd angen i ni gynllunio ein gwasanaethau cefnogi o bosibl, a beth fydd angen i ni roi sylw iddo yn yr amgylchedd ehangach o bosibl i helpu â'r materion hyn.

Pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal

Nid oes gennym ffigurau ar gyfer cyfanswm nifer y bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn y boblogaeth – dim ond ar gyfer y rhai sy'n derbyn gofal ar hyn o bryd, neu ar gyfer rhai sy'n gadael gofal sy'n dal i fod mewn cyswllt â'r gwasanaethau cymdeithasol neu sy'n hysbys iddynt. Felly mae'r mesur hwn yn dangyfrifiad. Yn gyffredinol, mae cyswllt yn lleihau gydag amser ers diwedd cyfrifoldebau dyletswydd gofal, felly mae'r mesur hwn yn fwyaf tebygol o fod yn gyfrif gwell o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ar ochr iau yr ystod oedran.

Ffigur 3: pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal (16 i 24 oed), 31 Mawrth 2024

Ardal	Nifer	Cyfradd
Ynys Môn	85	14.7
Gwynedd	195	11.3
Conwy	145	15.6
Sir Ddinbych	100	9.5
Sir y Fflint	125	7.9
Wrecsam	120	11.6
Gogledd Cymru	770	11.3
Cymru	4,100	11.7

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o bobl ifanc 16 i 24 oed ym mhoblogaeth yr ardal.

Ffynonellau: Fframwaith Perfformiad a Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol, StatsCymru; amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Ar gyfer y cyfnod adrodd mwyaf diweddar (Mawrth 2024) roedd tua 770 o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal rhwng 16 a 24 oed yng Ngogledd Cymru yn hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol. Mae hyn yn gyfradd o 11.3 ar gyfer pob 1,000 o bobl

yn y grŵp oedran hwnnw yn y rhanbarth, sydd ychydig yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. Mae cyfraddau'n amrywio'n sylweddol ar draws y rhanbarth.

Dan y diffiniad presennol, mae ffigurau ar gyfer y mesur hwn wedi'u casglu am bedair blynedd yn unig, felly nid yw'n bosibl darparu unrhyw ddadansoddiad cyfres amser.

Plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn cadw cofrestr o nifer y bobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol.

Yn gyffredinol, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal a chymorth wedi bod ar duedd ar i fyny, gan gynyddu tua 400 ar draws Gogledd Cymru ers 2017 (pan fabwysiadwyd y system adrodd bresennol). Mae'r cynnydd hwn yn bennaf oherwydd y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal. Mae'r cynnydd wedi digwydd ar yr un pryd â gostyngiad yn nifer y plant yn y boblogaeth yn gyffredinol.

Ffigur 4a: pobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, ar 31 Mawrth 2023 – nifer

Ardal	Plant sy'n Derbyn Gofal	Plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ond nad ydynt yn derbyn gofal	Plant eraill sy'n derbyn gofal a chymorth	Pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth
Ynys Môn	145	50	140	340
Gwynedd	280	55	430	765
Conwy	215	45	280	535
Sir Ddinbych	190	55	245	490
Sir y Fflint	245	210	185	640
Wrecsam	350	125	280	750
Gogledd Cymru	1,425	540	1,560	3,520

Ffigur 4b: pobl ifanc sy'n derbyn gofal a chymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, ar 31 Mawrth 2023 – cyfradd fesul 1,000 o bobl ifanc 0 i 17 oed

Ardal	Plant sy'n derbyn gofal	Plant sydd ar y gofrestr amddiffyn plant ond nad ydynt yn derbyn gofal	Plant eraill sy'n derbyn gofal a chymorth	Pob plentyn sy'n derbyn gofal a chymorth
Ynys Môn	11.1	3.8	10.7	26.0
Gwynedd	12.9	2.5	19.8	35.3
Conwy	10.5	2.2	13.7	26.1
Sir Ddinbych	9.9	2.9	12.7	25.4
Sir y Fflint	8.0	6.8	6.0	20.8
Wrecsam	12.6	4.5	10.1	27.0
Gogledd Cymru	10.7	4.1	11.7	26.4
Cymru	11.4	3.9	12.9	28.3

Dim ond mewn un categori y caiff plant eu cyfrif. Gallai plant sy'n derbyn gofal fod ar y gofrestr amddiffyn plant hefyd, ond dim ond yn y categori plant sy'n derbyn gofal maen nhw'n cael eu cyfrif yn y tabl hwn.

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae'r gyfradd fesul 1,000 o bobl ifanc 0 i 17 oed ym mhoblogaeth yr ardal.

Oherwydd bod niferoedd wedi'u talgrynnu'n annibynnol ar lefel awdurdod lleol, bydd camgymeriadau talgrynnu cyfansawdd yn effeithio ar ffigyrau a gyfrifwyd ar gyfer Gogledd Cymru, felly dylid bod yn ofalus wrth eu trin.

Ffynonellau: Cyfrifiad y Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru; amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Gwyddwn fod tua 15% o blant sy'n cael gofal a chymorth gan wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru yn byw gyda salwch meddwl (Ffynhonnell: statws iechyd meddwl plant sy'n derbyn gofal a chymorth, Cyfrifiad y Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth, StatsCymru). Mae'r ganran hon yn ymddangos yn isel o'i chymharu â'r cyfraddau a ragwelir ar gyfer poblogaeth plant a phobl ifanc yn gyffredinol yn yr adran mynychder oherwydd efallai nad yw anhwylderau iechyd meddwl wedi'u nodi na'u cofnodi. Bydd gwahaniaethau hefyd yn y diffiniadau o'r hyn sy'n cael ei gyfrif.

Pobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig

Ffigur 5: pobl ifanc sy'n byw yn y 10% o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is mwyaf difreintiedig yng Ngogledd Cymru, 2022

	0 i 17 oed nifer	0 i 17 oed canran	18 i 24 oed nifer	18 i 24 oed canran
Ynys Môn	250	2.0%	150	3.3%
Gwynedd	1,100	5.0%	300	2.5%
Conwy	1,200	5.8%	450	7.1%
Sir Ddinbych	3,150	16.3%	1,000	16.5%
Sir y Fflint	1,250	4.0%	450	4.3%
Wrecsam	3,000	10.7%	850	9.1%
Gogledd Cymru	9,900	7.4%	3,200	6.7%

Mae'r tabl hwn yn defnyddio amcangyfrifon poblogaeth 2022 yn hytrach na'r amcanestyniadau poblogaeth canol blwyddyn a gyhoeddwyd yn fwy diweddar a ddefnyddiwyd yn ffigur 1, gan mai hon yw'r unig ffynhonnell sydd ar gael ar hyn o bryd ar gyfer poblogaethau ardal fach.

Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is yw ardaloedd daearyddol a ddefnyddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a chyrff swyddogol eraill i adrodd ar ystadegau ar y lefel ardal fach.

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Y ganran yw cyfanswm nifer y bobl yn y grŵp oedran hwnnw yn yr ardal.

Ffynonellau: Cyfrifiad 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol; Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

Gan ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) i nodi'r ardaloedd sy'n dod o fewn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru, gallwn weld bod tua 9,900 o bobl ifanc 0 i 17 oed, a 3,200 o bobl ifanc 18 i 24 oed yn byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Ngogledd Cymru. Mae hyn tua 7.4% o bob person ifanc 0 i 17 oed yn y rhanbarth a 6.7% o bobl ifanc 18 i 24 oed. Mae gan Sir Ddinbych

gyfran arbennig o uchel o bobl ifanc sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig. Mae hyn wedi'i ganolbwyntio fwyaf yn y Rhyl, lle mae'r ddwy ardal cynnyrch ehangach haen is â'r sgôr uchaf (mwyaf difreintiedig) yng Nghymru, ac sydd â chyfanswm o chwe ardal cynnyrch ehangach haen is yn y 10% uchaf o ardaloedd mwyaf difreintiedig yn y wlad.

Mae MALC yn cael ei ddefnyddio fel mesur swyddogol Llywodraeth Cymru ar gyfer amddifadedd perthnasol mewn ardaloedd bychain yng Nghymru. Mae'n diffinio ardaloedd sydd a'r crynoadau uchaf o wahanol fathau o amddifadedd. Gall mesur ar gyfer amddifadedd mewn ardaloedd guddio profiadau unigol – nid yw pawb sy'n dioddef amddifadedd yn byw mewn ardal amddifadedd uchel, ac ni fydd pawb sy'n byw mewn ardal amddifadedd uchel yn profi amddifadedd. Mae'r mynegai hwn yn gweithio orau mewn cyd-destun mwy trefol a gall roi amcangyfrif rhy isel o amddifadedd mewn ardaloedd gwledig neu ardaloedd llai dwys o ran poblogaeth.

Ffigur 6: plant 0 i 15 oed mewn teuluoedd incwm isel yng Ngogledd Cymru, 2023/24

Ardal	Plant mewn teuluoedd sydd mewn gwaith	Plant mewn teuluoedd nad ydynt mewn gwaith	Pob plentyn mewn teuluoedd incwm isel - nifer	Pob plentyn mewn teuluoedd incwm isel - canran
Ynys Môn	2,600	1,100	3,700	31.8%
Gwynedd	4,250	1,600	5,850	30.7%
Conwy	4,000	1,550	5,550	30.7%
Sir Ddinbych	3,500	1,750	5,300	31.1%
Sir y Fflint	4,600	2,250	6,850	25.3%
Wrecsam	4,800	1,950	6,750	27.5%
Gogledd Cymru	23,800	10,200	33,950	28.9%

Caiff incwm isel cymharol ei ddiffinio fel teulu ar incwm isel Cyn Costau Tai yn y flwyddyn gyfeirio. Mae'n rhaid i deulu fod wedi hawlio Budd-dal Plant ac o leiaf un budd-dal aelwyd arall (Credyd Cynhwysol, credydau treth, neu Fudd-dal Tai) ar unrhyw bwynt yn y flwyddyn er mwyn cael eu cyfrif fel incwm isel yn yr ystadegau hyn.

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Y ganran yw cyfanswm nifer y bobl yn y grŵp oedran hwnnw yn yr ardal.

Ffynhonnell: plant mewn teuluoedd incwm isel (mesur cymharol), yr Adran Gwaith a Phensiynau

Oherwydd hyn, mae'n werth edrych ar fesurau eraill ar gyfer tlodi ac amddifadedd er mwyn cael darlun llawnach o sut y gallai hyn fod yn effeithio ar bobl ifanc yn y

rhanbarth. Er mai dim ond ar barth incwm amddifadedd mae hyn, gallai ffigurau ar gyfer plant sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel ddarparu rhagor o fewnwelediad i nifer y plant sy'n byw mewn tlodi.

Mae cyfran y plant sy'n byw mewn teuluoedd incwm isel yng Ngogledd Cymru yn uchel o'i gymharu â chyfartaledd Prydain, sef 27.1%. Mae niferoedd wedi bod ar duedd ar i fyny ers 2016/17 yn gyffredinol. Ledled Gogledd Cymru, mae tua saith o bob deg plentyn a nodwyd gan y mesur hwn mewn teuluoedd sydd mewn gwaith.

Gofalwyr ifanc

Ffigur 7: nifer y gofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru 2021

Ardal	5 i 15 oed Nifer	5 i 15 oed Cyfradd	16 i 24 oed Nifer	16 i 24 oed Cyfradd	Cyfanswm 0 i 24 oed Nifer
Ynys Môn	120	14.0	300	52.0	420
Gwynedd	150	10.7	515	36.2	665
Conwy	190	14.3	520	55.9	710
Sir Ddinbych	255	20.8	455	53.5	710
Sir y Fflint	280	14.2	725	52.5	1,005
Wrecsam	205	11.5	690	54.5	900
Gogledd Cymru	1,200	14.0	3,210	49.8	4,410
Cymru	5,325	13.5	17,235	52.4	22,555
Cymru a Lloegr	84,135	10.8	272,730	43.2	356,865

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.
Y gyfradd yw fesul 1,000 o bobl yn y grŵp oedran hwnnw yn yr ardal.
Ffynhonnell: Cyfrifiad poblogaeth 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Data'r cyfrifiad yw'r data mwyaf cynhwysfawr sydd gennym am ddarparwyr gofal di-dâl ar lefel awdurdod unedol. Fodd bynnag, mae'n debygol o fod yn dangyfrifiad gan ei fod yn dibynnu ar hunan-adnabyddiaeth, ac rydym yn gwybod nad yw gofalwyr di-dâl yn cydnabod eu bod yn y rôl honno bob amser.

Dim ond i bobl 5 oed neu hŷn y gofynnwyd am ddarpariaeth gofal di-dâl, felly nid oes gennym ddata am ofalwyr ifanc iawn.

Yn ôl Cyfrifiad 2021 roedd tua 4,410 o ofalwyr ifanc yng Ngogledd Cymru (1,200 rhwng 5 a 15 oed a 3,210 rhwng 16 a 24 oed). Roedd hyn yn cynrychioli cymhareb o

14.0 ymhob 1,000 o bobl ifanc rhwng 5 a 15 oed a 49.8 ymhob 1,000 o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed.

Mae'r cyfraddau'n amrywio ar draws y rhanbarth, ac efallai fod hynny'n adlewyrchu newidiadau ar lefel leol o ran gwasanaethau i gefnogi gofalwyr ifanc sy'n codi ymwybyddiaeth o'r hyn a allai gyfrif fel cyfrifoldebau gofalu. Mae cyfraddau ar gyfer gofalwyr ifanc 16 i 24 oed yn debygol o fod yn is yng Ngwynedd oherwydd presenoldeb Prifysgol Bangor. Poblogaethau o fyfyrwyr yn ystod y tymor – sydd yn y grŵp oedran hwn gan mwyaf – yn llai tebygol o fod yn cyflawni dyletswyddau gofalu tra byddant i ffwrdd o'r cartref teuluol.

Mae data yn yr adran hon yn ddiweddariad ar becyn gwybodaeth a gynhyrchwyd ar gyfer Is-grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer eu cyfarfod ar 22 Hydref 2022, a oedd yn canolbwyntio ar ofalwyr ifanc.

Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Daw data ar gyfer y mesur hwn o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol sy'n arolwg sampl. Nid yw meintiau samplau'n ddigon ystadegol gadarn i ddarparu dadansoddiad ar lefel awdurdod unedol, a dibynadwyedd cyfyngedig sydd arnynt, hyd yn oed ar lefel ranbarthol Gogledd Cymru. Rhyddhawyd y diweddariad diweddaraf ym mis Ebrill 2025.

Mae'r data diweddaraf ar gyfer Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod dwy flynedd o Ionawr 2022 i Rhagfyr 2024. Mae'n amcangyfrif nad yw 14.6% o bobl 16 i 24 oed ar gyfartaledd mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mae gan yr amcangyfrif hwn ffin hyder o 2.5% sy'n golygu y gellid disgwyl yn rhesymol i'r ystod fod unrhyw le rhwng 2.5% yn uwch neu'n is. Amcangyfrifir bod y 14.6% gyfwerth â thua 9,200 o bobl ifanc 16 i 24 oed.

Pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig (gan gynnwys cefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr a Roma)

Mae data o Gyfrifiad 2021 yn dangos y dadansoddiad ethnig canlynol o'r boblogaeth ar gyfer pobl ifanc 0 i 17 oed.

Caiff plant o deuluoedd a chefndiroedd Sipsiwn, Teithwyr neu Roma eu cydnabod fel bod mewn risg penodol o iechyd meddwl gwael, felly cânt eu rhestru'n benodol yn y tablau er mai poblogaeth gymharol fach ydynt.

Roedd nifer y bobl ifanc o gefndiroedd ethnig ar wahân i Gymreig gwyn neu hunaniaeth Brydeinig gwyn arall yn gymharol is yng Ngogledd Cymru yn 2021 – cyfanswm o 10,700 ar draws y rhanbarth, neu 8.0% o'r boblogaeth 0 i 17 oed. Roedd hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru sef 12.5% neu gyfartaledd o 32.1% ar gyfer Cymru a Lloegr. Wrecsam yw'r ardal awdurdod unedol yng Ngogledd Cymru sydd â'r amrywiaeth ethnig fwyaf ymhlith pobl ifanc, ac Ynys Môn sydd â'r amrywiaeth leiaf. Yr hunaniaeth grŵp ethnig cymysg neu luosog yw'r grŵp mwyaf ar wahân i Gymreig gwyn neu Brydeinig gwyn arall ym mhob ardal ac ar gyfer y rhanbarth cyfan.

Ffigur 8a: grŵp ethnig pobl 0 i 17 oed yng Ngogledd Cymru, 2021 – niferoedd

Grŵp ethnig	Ynys Môn	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam	Gogledd Cymru
Cyfanswm poblogaeth 0-17 oed	13,215	21,875	20,785	19,150	30,975	27,960	133,960
Gwyn: Seisnig/ Cymreig/ Albanaidd/ Gogledd Iwerddon/ Prydeinig	12,680	20,425	19,220	17,720	28,435	24,755	123,235
Gwyn: Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig neu Roma	20	35	35	25	60	50	220
Gwyn: gwyn arall	125	320	395	275	1,245	1,415	3,780
Grŵp ethnig cymysg/lluosog	250	485	615	500	685	735	3,265
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	90	355	385	485	340	540	2,205
Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig	15	95	50	50	75	240	520
Grŵp ethnig arall	45	155	90	95	125	225	730

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Cyfrifiad poblogaeth 2021, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Ffigur 8b: grŵp ethnig pobl 0 i 17 oed yng Ngogledd Cymru, 2021 – canran

Grŵp ethnig	Ynys Môn	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam	Gogledd Cymru
Gwyn: Seisnig/ Cymreig/ Albanaidd/ Gogledd Iwerddon/ Prydeinig	95.9%	93.4%	92.5%	92.5%	91.8%	88.5%	92.0%
Gwyn: Sipsiwn, Teithwyr Gwyddelig neu Roma	0.1%	0.1%	0.1%	0.1%	0.2%	0.1%	0.1%
Gwyn: gwyn arall	0.2%	0.2%	0.2%	0.2%	0.1%	0.1%	0.1%
Grŵp ethnig cymysg/lluosog	1.9%	2.2%	2.9%	2.6%	2.2%	2.6%	2.4%
Asiaidd/Asiaidd Prydeinig	0.7%	1.6%	1.9%	2.5%	1.1%	1.9%	1.6%
Du/Affricanaidd/ Caribïaidd/ Du Prydeinig	0.1%	0.4%	0.2%	0.3%	0.2%	0.9%	0.4%
Grŵp ethnig arall	0.3%	0.7%	0.4%	0.5%	0.4%	0.8%	0.5%

Y ganran yw cyfanswm nifer y bobl yn y grŵp oedran hwnnw yn yr ardal.

Ffynhonnell: Cyfrifiad poblogaeth 2021, Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae nifer a chyfran y bobl 0 i 17 oed o gefndir ethnig ar wahân i hunaniaeth Cymreig gwyn neu Brydeinig gwyn arall wedi cynyddu ers Cyfrifiad 2011, pan mai'r gyfran oedd 5.4% neu tua 7,550 o bobl. Roedd mwyafrif y twf hwn yn y grŵp 'gwyn arall' a'r grŵp ethnig cymysg/lluosog.

Cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd

Nid oes data dibynadwy am gyfeiriadedd rhywiol na hunaniaeth o ran rhywedd pobl ifanc, yn enwedig ar lefel leol. Mae arolygon cenedlaethol sy'n darparu data am y pynciau hyn – gan gynnwys Cyfrifiad 2021 a'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol – ond nid ydynt yn gofyn y cwestiynau hyn i bobl dan 16 oed.

Mae bwletin ymchwil ar gael sy'n edrych ar ddata crynodeb pwnc Cyfrifiad 2021 am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd ar gyfer pobl 16 oed a hŷn yng Ngogledd Cymru.

Mae archwilio'r amcangyfrifon cenedlaethol diweddaraf o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol (2023) yn rhoi'r amcangyfrif canlynol o ddadansoddiad poblogaeth yn ôl hunaniaeth rywiol ar gyfer pobl ifanc 16 i 24 oed yng Ngogledd Cymru.

Ffigur 9: amcangyfrif o hunaniaeth rywiol pobl ifanc 16 i 24 oed yng Ngogledd Cymru

Hunaniaeth rywiol	Amcangyfrif o ganran y DU 2023	Allosodwyd ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru 2023
Heterorywiol neu strêt	85.5%	54,700
Hoyw neu lesbiaidd	3.0%	1,900
Deurywiol	7.5%	4,800
Arall	1.6%	1,000
Ddim yn gwybod neu wedi gwrthod ateb	2.4%	1,550

Mae 'arall' yn golygu nad oedd yr ymatebwr yn ystyried ei fod yn ffitio i'r categorïau heterorywiol neu strêt, deurywiol, hoyw neu lesbiaidd.

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: Arolwg Poblogaeth Blynyddol, Swyddfa Ystadegau Gwladol; amcangyfrifon poblogaeth canol-blwyddyn, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae proses casglu data Gwasanaethau Cwnsela Ysgolion Awdurdodau Lleol Llywodraeth Cymru yn cofnodi hyd at dri mater amlwg a blaenaf ar gyfer pob un o'r bobl ifanc sy'n cael mynediad at y gwasanaeth yng Ngogledd Cymru. Yn 2023/24, ar gyfer y rhanbarth cyfan, cofnodwyd mai materion trawsryweddol oedd y prif fater amlwg ar gyfer 15 o bobl ifanc, a'r mater blaenaf ar gyfer 12 o bobl ifanc. Cofnodwyd materion rhywiol (gan gynnwys cyfeiriadedd) fel prif fater amlwg ar gyfer 18 o bobl ifanc, ac fel mater blaenaf ar gyfer 24 o bobl ifanc. (Sylwch: gallai pob un o'r cyfansymiau hyn gynnwys yr un bobl). Mae data ar gael ar lefel awdurdod unedol ond mae'r niferoedd yn fach iawn.

Ymfudwyr a ffoaduriaid

Er bod nifer y bobl ifanc sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain yng Ngogledd Cymru yn gymharol isel, mae'n debyg bod niferoedd wedi codi ers i ni adrodd yn yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth, a oedd yn defnyddio data mis Medi 2021. (Nid oedd data ar gael ar gyfer yr holl ardaloedd ar gyfer yr adroddiad ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth.)

Ffigur 10: y nifer o bobl ifanc sy'n ceisio lloches yng Ngogledd Cymru, Tachwedd 2022

Ardal	Plant sy'n derbyn gofal	Pobl sy'n gadael gofal	Plant sy'n Derbyn Gofal 2021
Ynys Môn	5	5	<5
Gwynedd	10	<5	0
Conwy	<5	<5	0
Sir Ddinbych	10	0	
Sir y Fflint	10	<5	0
Wrecsam	<5	5	
Gogledd Cymru	40	10	<5

Dim ond ar gyfer y ceiswyr lloches hynny sydd ar eu pen eu hunain a ddewisodd, ar ôl cyrraedd 18 oed, i aros mewn cyswllt â'r awdurdod lleol y mae'r ffigyrau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn cyfrif.

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Mae cyfansymiau Gogledd Cymru ar gyfer yr ardaloedd hynny y mae gennym ni ddata ar eu cyfer.

Ffynhonnell: Data wedi ei gasglu gan yr awdurdod lleol

Lle mae gennym ni'r data hwn (nid yw ar gael ar gyfer yr holl awdurdodau lleol) fe allwn weld fod pobl ifanc sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod lleol:

- gan fwyaf rhwng 15 i 17 oed.
- fel arfer wedi dechrau defnyddio ein gwasanaethau o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.
- fe allant fod mewn lleoliad gofal maeth, mewn llety â chymorth neu'n byw'n rhannol annibynnol.
- wedi'u lleoli y tu allan i'r sir o bosibl.

Mae pobl ifanc sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain sy'n unigolion sy'n gadael gofal:

- yn amrywio o ran oedran o 18 i 25.
- fe allant fod wedi bod yn defnyddio ein gwasanaethau am dros bum mlynedd.
- maent yn debygol o fod yn byw mewn llety o dan eu tenantiaeth eu hunain.

Ymhlith gwledydd gwreiddiol plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches mae:

- Affganistan
- Albania
- Yr Aifft
- Eritrea
- Ethiopia
- Iran
- Irac
- Moroco
- Pacistan
- Swdan
- Syria
- Wcráin
- Fietnam

Nid yw'r data hwn gennym ar gyfer yr holl awdurdodau lleol.

Hefyd mae angen ystyried ffoaduriaid ifanc sy'n cyrraedd fel rhan o deulu. Yn ogystal â rhaglenni sefydledig fel y Cynllun Pobl Agored i Niwed o Syria, Rhaglen Adleoli a Chymorth i Unigolion o Affganistan, yn 2022 hefyd gwelwyd cyflwyno Cynllun Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin. Er na fyddant o bosibl angen yr un lefel o ofal cymdeithasol â'r bobl ifanc sy'n ceisio lloches ar eu pen eu hunain fe fydd ganddynt gyswllt o hyd gyda'r gwasanaethau lles a gaiff eu darparu yn yr ardal, gan gynnwys iechyd, addysg a'r gwasanaethau tai.

Mae data ar lefel Gogledd Cymru yn anghyflawn, ond mae ffigyrau cenedlaethol yn awgrymu bod 25% i 40% o bobl sydd wedi eu hadsefydlu drwy'r cynlluniau hyn o dan 18 oed.

O'r data sydd gennym ni o Wrecsam a Gwynedd rydym ni'n gwybod bod yna:

- tua 130 o blant o dan 18 oed wedi eu hadsefydlu o dan y Cynllun Cartrefi i Ffoaduriaid o Wcráin ac sy'n hysbys i'r awdurdodau lleol.
- tua 60 o blant o dan 18 oed o fewn cynlluniau eraill (gan gynnwys plant a anwyd wedi'r adsefydlu).

Mae data yn yr adran hon wedi dod o becyn gwybodaeth a gynhyrchwyd ar gyfer Is-grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ar gyfer eu cyfarfod ar 16 Rhagfyr 2022, a oedd yn canolbwyntio ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches ifanc.

Pobl ifanc yn y system cyfiawnder troseddol

Ffigur 11: plant 10 i 17 oed a gafodd rybudd neu ddedfryd, gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n goruchwylio – newid dros gyfnod 10 mlynedd

Ardal	2013/14 nifer	2013/14 cyfradd	2023/24 nifer	2023/24 cyfradd	Newid 2013/14 i 2023/24
Conwy a Sir Ddinbych	213	11.3	74	3.8	-139
Sir y Fflint	108	7.6	51	3.4	-57
Gwynedd a Môn	165	10.2	115	6.8	-50
Wrecsam	176	14.5	55	4.1	-121
Gogledd Cymru	662	10.8	295	4.6	-367

Mae'r data ar gyfer blwyddyn ariannol (Ebrill-Mawrth)

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Y gyfradd yw fesul 1,000 o bobl yn y grŵp oedran hwnnw yn yr ardal.

Ffynhonnell: data plant a gafodd rybudd neu ddedfryd, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Ffigur 12: plant 10 i 17 oed a gafodd rybudd neu ddedfryd, gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid sy'n goruchwylio – dadansoddiad yn ôl oedran a rhyw 2023/24

Ardal	Pawb	10 i 14 oed	15 i 17 oed	Merched	Bechgyn
Conwy a Sir Ddinbych	75	30	40	15	55
Sir y Fflint	50	15	35	5	45
Gwynedd a Môn	115	20	90	15	95
Wrecsam	55	15	40	10	45
Gogledd Cymru	295	80	210	50	240

Mae'r data ar gyfer blwyddyn ariannol (Ebrill-Mawrth)

Mae'r niferoedd wedi eu talgrynnu felly efallai na fyddan nhw'n adio at y cyfanswm.

Ffynhonnell: data plant a gafodd rybudd neu ddedfryd, Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid

Mae'r data diweddaraf sydd ar gael yn dangos 295 o bobl ifanc rhwng 10 a 17 oed sy'n cael eu goruchwylio gan y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid yng Ngogledd Cymru. Roedd hyn 4.6 o bobl ifanc ar gyfer pob 1,000 o bobl 10 i 17 oed yn y boblogaeth. Mae'r data ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 (Ebrill-Mawrth).

Mae niferoedd a chyfraddau wedi gostwng yn sylweddol ers deng mlynedd yn ôl. Ymddengys bod y duedd ar i lawr yn gyffredinol, er y bu cynnydd o dros 100 ar draws y rhanbarth cyfan rhwng 2022/23 a 2023/24.

Mae merched yn ffurfio cyfran is o lawer o droseddwyr ifanc na bechgyn – mae ffigurau'n amrywio'n sylweddol o'r naill ardal i'r llall a rhwng cyfnodau hefyd oherwydd y niferoedd cymharol isel, ond yn 2023/24, merched oedd tua 17% o droseddwyr ifanc ar draws Gogledd Cymru gyfan.

Mae data ar gael am grŵp ethnig plant sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid hefyd. Mae'r niferoedd yn isel iawn ar lefel ardal Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid felly nid ydynt wedi'u cynrychioli yn y tablau uchod. Ar gyfer 2023/24, roedd tua 280 o bobl ifanc o gefndir ethnig Gwyn, tua pump nad ydym yn gwybod beth yw eu hethnigrwydd a thua cyfanswm 10 o bob cefndir ethnig arall. Mae hyn tua 3.5% o'r holl blant sy'n hysbys i'r Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid ac mae rhywfaint yn is na'r 5% y byddem yn ei ddisgwyl pe bai cyfrannau'n cyd-fynd â chyfansoddiad ethnig plant yng Ngogledd Cymru fel a welwyd yng nghyfrifiad 2021.

Mae setiau data ar wahân ar gael am y mathau o droseddau a gyflawnwyd a'r canlyniadau i'r bobl ifanc.

Atodiadau

Ffigur 13: rhestr o ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA) Gogledd Cymru yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru

Cod LSOA	Enw'r LSOA	Enw'r awdurdod lleol	Sgôr gyffredinol Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019
W01000016	Tref Caergybi	Ynys Môn	168
W01000091	Marchog 2	Gwynedd	167
W01000098	Peblig (Caernarfon)	Gwynedd	155
W01000127	Colwyn 2	Conwy	190
W01000144	Glyn (Conwy) 2	Conwy	20
W01000187	Tudno 2	Conwy	78
W01001928	Abergele Pensarn 2	Conwy	70
W01000198	Dinbych Uchaf / Henllan 1	Sir Ddinbych	170
W01000228	Dwyrain y Rhyl 3	Sir Ddinbych	133
W01000236	De Orllewin y Rhyl 1	Sir Ddinbych	57
W01000237	De Orllewin y Rhyl 2	Sir Ddinbych	19
W01000239	Gorllewin y Rhyl 1	Sir Ddinbych	2
W01000240	Gorllewin y Rhyl 2	Sir Ddinbych	1
W01000241	Gorllewin y Rhyl 3	Sir Ddinbych	11
W01000304	Canol Treffynnon	Sir y Fflint	152
W01000333	Sealand 2	Sir y Fflint	158
W01000336	Shotton Uchaf 2	Sir y Fflint	98
W01000353	Cartrefle 2	Wrecsam	156
W01000409	Plas Madoc	Wrecsam	99
W01000413	Queensway 1	Wrecsam	9
W01000414	Queensway 2	Wrecsam	80
W01000425	Wynnstay	Wrecsam	45
W01001931	Smithfield 3	Wrecsam	163

Cafodd W01000353 ei gyfuno â W01000352 yn 2021 i ffurfio LSOA newydd, W01001969

Ffynhonnell: Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019, Llywodraeth Cymru

Caiff Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is eu henwi ar gyfer y rhanbarth etholiadol (ward) y maen nhw ynddo – ar hyn o bryd, mae'r enwau hyn yn seiliedig ar ranbarthau etholiadol cyn 2022 ac maen nhw'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd.